



Estyn

Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Awdurdodau lleol ac ysgolion sy'n peri pryder

Arfarniad o effaith ymyrraeth
a chefnogaeth gan awdurdodau
lleol i ysgolion sy'n peri pryder



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE



MAI 2009

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALLau);
- ▲ ysgolion cynradd;
- ▲ ysgolion uwchradd;
- ▲ ysgolion arbennig;
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion;
- ▲ ysgolion annibynnol;
- ▲ addysg bellach;
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned;
- ▲ gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- ▲ hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ▲ ALLau;
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon;
- ▲ dysgu yn y gwaith;
- ▲ cwmnïau gyrfaoedd;
- ▲ dysgu troseddwy; ac
- ▲ elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2009: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/adroddiad penodol.

Cyflwyniad	1
Cefndir	3
Categoriâu o ysgolion sy'n peri pryder	3
Cyfrifoldebau awdurdodau lleol	3
Prif ganfyddiadau	5
Argymhellion	8
Ansawdd polisiâu awdurdodau lleol ar gyfer monitro, herio, ymyrryd a chefnogi	9
Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn adolygu ac yn arfarnu ysgolion?	10
Ymweliadau monitro ag ysgolion	10
Defnyddio data perfformiad	10
Adolygiadau â ffocws o'r ddarpariaeth	11
Rhoi ysgolion mewn categorïau	12
Sicrhau bod llywodraethwyr yn cael gwybod am berfformiad ysgol	13
Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn ymyrryd mewn ysgolion?	14
Cefnogaeth ar gyfer ysgolion y bernir bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arnynt	14
Cefnogaeth ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder ac ysgolion eraill sy'n tanberfformio	15
Targedu cefnogaeth mewn cyfrannedd gwrthdro i lwyddiant	16
Monitro cynnydd mewn ysgolion a gefnogir	16
Gallu awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion	17
Sut mae awdurdodau'n sicrhau atebolrwydd?	19
Sicrhau ansawdd rhaglenni ymyrraeth a chefnogaeth	19
Cydweithio ag esgobaethau lle bo hynny'n briodol	20
Defnyddio'r ystod lawn o bwerau awdurdodau lleol i wella ysgolion	20
Pa mor wybodus yw aelodau etholedig?	21
Atodiad 1: Astudiaethau achos o arfer dda	
Atodiad 2: Ysgolion sy'n peri pryder	
Nifer yr ysgolion sy'n peri pryder a nodwyd mewn arolygiadau Estyn	
Monitro cynnydd ysgolion sy'n peri pryder	

Pam y mae nifer yr ysgolion sy'n peri pryder yn cynyddu?
Faint o awdurdodau lleol sydd ag ysgolion sy'n peri pryder?

Atodiad 3: Deddfwriaeth ac arweiniad ar rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol

Atodiad 4: Pwerau ymyrryd awdurdodau lleol

Hysbysiadau rhybudd
Pwerau ymyrryd eraill
Penodi llywodraethwyr ychwanegol
Atal pwerau dirprwyedig
Penodi Bwrdd Gweithredol Dros Dro (BGDD)

Atodiad 5: Arweiniad ar ddatganiadau gweithredu awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Cyflwyniad

- 1 Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi mewn ymateb i gais yn y cylch gorchwyl blynyddol i Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2008-2009.
- 2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw arfarnu effaith ymyrraeth a chefnogaeth gan awdurdodau lleol i ysgolion y nodwyd eu bod yn peri pryder yn ystod arolygiad Estyn ac ar gyfer yr ysgolion hynny y mae awdurdodau eu hunain yn nodi bod angen eu gwella Mae'r adroddiad yn ceisio amlygu enghreifftiau o arfer dda (ceir astudiaethau achos yn Atodiad 1) a nodi agweddau ar ymyriadau sydd angen eu gwella.
- 3 Yn benodol, mae'r adroddiad yn ystyried y polisiau sydd gan awdurdodau lleol ar gyfer monitro, cefnogi, herio ac ymyrryd yn eu hysgolion, pa mor effeithiol y mae'r polisiau hyn o ran gwella ysgolion a'r rhesymau pam nad yw awdurdodau lleol yn defnyddio ystod lawn eu pwerau bob tro er mwyn sicrhau gwelliant pellach.
- 4 Yn yr adroddiad hwn, mae ysgolion sy'n peri pryder yn cyfeirio at yr ysgolion hynny y nodwyd bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arnynt yn ystod arolygiad Estyn. Cyfeirir at ysgolion eraill y nodwyd bod angen cefnogaeth ac ymyrraeth arnynt gan yr awdurdod lleol fel ysgolion sy'n tanberfformio.
- 5 Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar dystiolaeth a gasglwyd o:
 - arolygiadau o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) y nodwyd bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arnynt, neu fod ganddynt wendidau difrifol, rhwng mis Medi 2004 a mis Gorffennaf 2008;
 - arolygiadau o naw gwasanaeth gwella ysgolion mewn awdurdodau lleol rhwng mis Medi 2006 a mis Gorffennaf 2008;
 - ymweliadau monitro ag ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig y nodwyd bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arnynt rhwng mis Medi 2006 a mis Gorffennaf 2007;
 - craffu ar gynlluniau gweithredu o ysgolion ac UCDau y nodwyd bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arnynt rhwng mis Medi 2007 a mis Gorffennaf 2008, a datganiadau gweithredu gan yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y sefydliadau hyn;
 - dogfennau gan yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys polisiau a chytundebau partneriaeth drafft;
 - ymweliadau â saith awdurdod lleol a chyfweliadau dros y ffôn gydag uwch swyddogion mewn chwe awdurdod lleol arall;
 - cyfweliadau dros y ffôn gyda chynrychiolwyr esgobaethau'r Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Babyddol yng Nghymru; a

- chyfweliadau gyda phenaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethol mewn 12 ysgol, gan gynnwys ysgolion sydd mewn categori sy'n peri pryder ar hyn o bryd, ysgolion a symudwyd o un o'r categorïau hyn yn ddiweddar ac ysgolion y nodwyd gan awdurdodau lleol eu bod yn tanberfformio.
- 6 Cynhwyswyd ysgolion a dynnwyd o'r rhestr ysgolion sy'n peri pryder yn ddiweddar yn yr arolwg er mwyn barnu pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn eu cefnogi i wella ymhellach.
 - 7 Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar adroddiad arolygu Estyn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2008, 'Defnyddio data perfformiad mewn awdurdodau lleol ac ysgolion'. (www.estyn.gov.uk).

Cefndir

Categoriâu o ysgolion sy'n peri pryder

- 8 Cyflwynodd Deddf Addysg 1993 gategori o 'ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt'. Dywed y diffiniad diweddaraf, o Ddeddf Addysg 2005, bod angen mesurau arbennig ar ysgol os:
- yw'r ysgol yn methu â rhoi safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion; ac
 - os nad yw'r unigolion sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r ysgol yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen ar yr ysgol.
- 9 Ymestynnodd Deddf Addysg 2002 y dosbarthiad ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder i gynnwys 'ysgolion sydd â gwendidau difrifol'. Diffiniodd y ddeddf fod gan ysgol wendidau difrifol os oes ganddi wendidau mewn un neu fwy o feysydd o'i gweithgareddau, hyd yn oed os yw'n rhoi safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion. Gallai'r ysgolion hyn fod â rhai o'r diffygion sydd i'w gweld mewn ysgolion sydd angen mesurau arbennig, ond nid i'r un graddau neu mewn rhai o'r agweddau ar y ddarpariaeth yn unig. Bodolodd y categori hwn o fis Ionawr 2003 hyd fis Awst 2006. Nodwyd bod gan ugain o ysgolion wendidau difrifol yn ystod y cyfnod hwn.
- 10 Disodlodd Deddf Addysg 2005 y categori 'ysgolion sydd â gwendidau difrifol' gydag 'ysgolion y mae angen eu gwella'n sylweddol'. Mae'r ddeddf yn diffinio ysgol y mae angen iddi wella'n sylweddol fel ysgol sy'n perfformio cryn dipyn yn waeth nag y byddid yn disgwyl iddi berfformio'n rhesymol yn yr holl amgylchiadau, hyd yn oed os nad yw'n disgyn i'r categori mesurau arbennig. Rhoddodd y categori newydd hwn fodd i arolygwyr adnabod ysgolion a oedd yn tanberfformio ond nad oedd angen mesurau arbennig arnynt neu nad oedd ganddynt wendidau difrifol o reidrwydd.
- 11 Nododd Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar gyfer 2006-2007 nodweddion cyffredin ar gyfer ysgolion y mae angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arnynt, gan gynnwys safonau isel o gyflawniad ymhlith disgyblion, cyrhaeddiad sy'n cymharu'n wael â chyrhaeddiad mewn ysgolion tebyg a diffygion pwysig mewn arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn yr ysgolion hyn, ni aethpwyd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol, nid oes gan arweinwyr syniad clir o gryfderau a gwendidau'r ysgol bob tro ac nid yw llywodraethwyr a'r awdurdod lleol yn gwneud digon i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni safonau uchel.
- 12 Ceir fwy o wybodaeth am ysgolion sy'n peri pryder, gan gynnwys y nifer ym mhob categori adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, yn Atodiad 2.

Cyfrifoldebau awdurdodau lleol

- 13 Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau penodol mewn perthynas ag ysgolion y mae angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arnynt, fel y nodwyd yn Neddf Addysg 2005. Wedi iddynt gael eu nodi, dylai'r ysgolion hyn gael lle amlwg yn rhaglen gwella ysgolion yr awdurdod ar yr egwyddor y dylai unrhyw ymyrraeth fod yn gymesur â'r angen.

- 14 Ar gyfer yr ysgolion hyn, disgwylir i awdurdodau lleol:
- baratoi datganiad o'r camau gweithredu y maent yn bwriadu eu cymryd, a'r cyfnod y maent yn disgwyl cymryd y camau ynddo, mewn perthynas ag unrhyw ysgolion y mae angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arnynt (gweler Atodiad 5);
 - gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion y mae angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arnynt, ac esgobaeth os yw'n briodol, i lunio cynllun gweithredu effeithiol ar gyfer yr ysgol;
 - darparu cefnogaeth reolaidd wedi'i thargedu'n dda i'r ysgol wrth iddi roi'r cynllun gweithredu ar waith; a
 - monitro cynnydd yr ysgolion hyn ac addasu cynlluniau yn ôl yr angen.
- 15 Nid oes rhaid i awdurdodau lleol aros i Estyn nodi bod ysgolion yn peri pryder cyn ymyrryd. Dylai monitro ysgolion yn effeithiol dynnu sylw swyddogion at yr ysgolion hynny lle mae problemau yn dod i'r amlwg, a'u galluogi i ymyrryd cyn i'r problemau hynny gael effaith sylweddol ar gyflawniadau disgyblion.
- 16 Mae'r Cod Ymarfer ar Gysylltiadau rhwng AALLau ac Ysgolion (1999) yn ei gwneud yn glir, er mai ysgolion eu hunain sy'n gyfrifol am gyflawni safonau uwch yn y pen draw, mae gan awdurdodau lleol ran bwysig i'w chwarae mewn helpu ysgolion i wella trwy gefnogaeth ac ymyrraeth wedi'u targedu'n dda. Mae'n hanfodol eu bod yn cefnogi ysgolion wrth iddynt ymdrechu i gyflawni safonau uwch a sicrhau bod camau yn cael eu cymryd pan nad yw ysgol yn perfformio cystal ag y dylai. Mae'r cod ymarfer hwn yn nodi dyletswyddau a phwerau awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion ac i ymyrryd yn ôl yr angen. Hefyd, mae Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Trefniadau Partneriaeth) (Cymru) 2008 yn rhoi dyletswydd i bob awdurdod addysg lleol yng Nghymru roi trefniadau partneriaeth ar waith gyda phob un o'i ysgolion.
- 17 Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (adran 1) yn rhoi dyletswydd i awdurdodau lleol hyrwyddo safonau uchel ac annog pob plentyn dan sylw i gyflawni ei botensial addysgol. Mae'r Ddeddf hon yn diffinio ysgolion sydd â pherfformiad isel (adran 17) trwy gymharu perfformiad:
- a â'r safonau y byddai disgwyl i'r disgyblion eu cyrraedd yn rhesymol dan yr holl amgylchiadau;
 - b â'r safonau y cyrhaeddwyd ganddynt yn flaenorol, lle bo hynny'n berthnasol; ac
 - c â'r safonau y mae ysgolion mewn ysgolion tebyg yn eu cyrraedd.
- 18 Ceir mwy o fanylion am y ddeddfwriaeth hon yn Atodiad 3.

Prif ganfyddiadau

- 19 Mae gan awdurdodau lleol bolisiâu ar gyfer monitro, cefnogi, herio ac ymyrryd yn eu hysgolion, ond nid ydynt bob amser yn cefnogi, yn herio nac yn ymyrryd yn ddigon da i atal ysgolion rhag i Estyn nodi eu bod yn peri pryder. Mae arfer dda yn gwella ar draws y sector, ond mae gormod o amrywiaeth o hyd.
- 20 Mae awdurdodau lleol yn gwella wrth ymyrryd mewn ysgolion pan fo arolygwyr yn nodi eu bod yn peri pryder. Yn gyffredinol, mae awdurdodau yn cefnogi'r ysgolion hyn yn dda ac nid oes angen mesurau arbennig ar y rhan fwyaf ohonynt mwyach ar ôl cyfnod o ddwy flynedd, neu ar ôl cyfnod llai ar gyfer ysgolion y mae angen iddynt wella'n sylweddol.
- 21 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, mae swyddogion yn deall pa mor dda y mae eu hysgolion yn perfformio. Maent yn dadansoddi data perfformiad, yn ymweld â'r holl ysgolion ac yn cynnal adolygiadau manwl mewn ysgolion penodol.
- 22 Fodd bynnag, nid yw'r data'n cael ei ddefnyddio'n gyson gan swyddogion i herio na chefnogi ysgolion, yn rhannol oherwydd y diffyg data perfformiad cytûn ledled Cymru. Hefyd, mae dadansoddiadau data sy'n cymharu perfformiad ysgolion yng nghyfnod allweddol 4 gyda pherfformiad ysgolion tebyg sydd â lefelau tebyg o amddifadedd yn cyrraedd yn rhy hwyr yn y flwyddyn academaidd i ddylanwadu ar gynllunio.
- 23 Erbyn hyn, mae adolygiadau monitro y rhan fwyaf o awdurdodau lleol o ysgolion yn cynnwys tystiolaeth uniongyrchol o ystafelloedd dosbarth. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau yn arfarnu ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn ysgolion yn ddigon trylwyr, na'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiadau diweddaraf gan Estyn. Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn dibynnu gormod ar arolygiadau Estyn i nodi gwendidau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth.
- 24 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio eu gwybodaeth fanwl am ysgolion i'w dosbarthu yn ôl eu risg. Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf y maent yn eu defnyddio i wneud hyn yn cael eu rhannu'n llawn ag ysgolion bob tro. Yn yr achosion hyn, nid yw staff ysgolion yn glir ynghylch pa gategori y maen nhw ynddo na'r gefnogaeth y mae ganddynt hawl i'w chael o ganlyniad.
- 25 Nid yw'r holl awdurdodau lleol yn defnyddio ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn ysgol nac effeithiolrwydd y corff llywodraethol fel meini prawf ar gyfer asesu risg. Nid ydynt ychwaith yn adolygu lefel y risg pan fo arweinyddiaeth yr ysgol yn newid.
- 26 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau yn darparu ystod o gefnogaeth a hyfforddiant i ysgol sy'n tanberfformio. Fel arfer, mae'r gefnogaeth hon wedi'i thargedu at feysydd cwricwlaidd sy'n tanberfformio ac agweddau fel addysgu ac asesu. Fodd bynnag, nid yw rhai awdurdodau yn darparu digon o hyfforddiant i helpu timau arweinyddiaeth uwch i fynd i'r afael â diffygion a gwella ansawdd.

- 27 Mae presenoldeb ac ymddygiad yn aml yn wael mewn ysgolion y nodwyd eu bod yn peri pryder. Nid yw staff o wasanaethau gwella ysgolion a chynhwysiad yn cydweithio â'i gilydd yn ddigon da i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y presenoldeb a'r ymddygiad gwael.
- 28 Erbyn hyn, mae llawer o awdurdodau lleol yn canolbwyntio'n fwy pendant ar yr ysgolion hynny y mae angen eu gwella fwyaf. Yn gyffredinol, ni all yr awdurdodau lleol hynny sy'n ceisio cefnogi'r holl ysgolion yn gyfartal ddarparu digon o gefnogaeth er mwyn sicrhau gwelliant yn yr ysgolion hynny'n sy'n tanberfformio.
- 29 Yng Nghymru, mae gan lawer o awdurdodau lleol allu ymgynghorol cyfyng ac mae'n rhaid iddynt dynnu ar adnoddau ychwanegol er mwyn herio ysgolion sy'n peri pryder. Mae grwpio awdurdodau yn bedwar consortiwm ledled Cymru yn eu galluogi i frocera cefnogaeth ar gyfer agweddau ar y ddarpariaeth lle nad oes ganddynt arbenigedd mewnol. Mae rhai awdurdodau yn cyflogi ymgynghorwyr annibynnol rhan-amser at y diben hwn.
- 30 Serch hynny, nid oes gan rai awdurdodau drefniadau o hyd sy'n sicrhau bod ganddynt y gallu i ddarparu'r ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer pob math o ysgol. Er enghraifft, nid oes gan leiafrif o'r awdurdodau lleol yr arbenigedd i herio, cefnogi nac ymyrryd yn effeithiol mewn ysgolion arbennig. Nid yw'r awdurdodau hyn yn gwybod p'un a yw disgyblion yn eu hysgolion a'u hunedau arbennig yn cyflawni safonau da ai peidio.
- 31 Nid yw rheoli perfformiad yn ddigon trylwyr mewn llawer o awdurdodau lleol i sicrhau bod gwaith yr holl staff, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu brocera trwy drefniadau gweithio ar y cyd neu ymgynghoriaethau allanol, yn effeithiol.
- 32 Yn yr arfer orau, mae adroddiadau blynyddol ar berfformiad ysgolion yn rhoi gwybod i aelodau etholedig am gynnydd yr holl ysgolion yn eu hawdurdod lleol. Fodd bynnag, nid yw'r holl wasanaethau addysg yn rhoi gwybod i aelodau etholedig am ba ysgolion sy'n peri pryder ac nid yw swyddogaeth craffu y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn adnabod ac yn herio tanberfformiad mewn ysgolion.
- 33 Mae llywodraethwyr yn cael y wybodaeth orau pan fydd swyddogion yr awdurdod lleol yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol o leiaf unwaith y flwyddyn, neu pan fydd llywodraethwr yn mynychu trafodaethau rhwng penaethiaid a swyddogion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion y nodwyd eu bod yn peri pryder yn ystod arolygiad Estyn, nid yw llywodraethwyr yn gwybod digon am y rhesymau dros danberfformiad yr ysgol. Fel arfer, nid yw llywodraethwyr ysgolion sy'n peri pryder yn cael hyfforddiant sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion penodol.
- 34 Nid yw llawer o awdurdodau lleol yn cefnogi llywodraethwyr yn ddigon da i fynd i'r afael â diffygion mewn arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol. Fodd bynnag, hyd yn oed pan gaiff cefnogaeth ei darparu, mae rhai cyrff llywodraethol yn gyndyn o gymryd camau cadarn, gan gynnwys defnyddio gweithdrefnau'n ymwneud â gallu, i fynd i'r afael â pherfformiad gwael staff.
- 35 Mewn rhai ysgolion sy'n peri pryder, mae'r awdurdod lleol wedi penodi llywodraethwyr ychwanegol yn ddefnyddiol i ddod ag arbenigedd ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio'r ystod lawn o bwerau sydd ar

gael iddynt i helpu ysgolion sy'n tanberfformio i wella'n gyflym. Mae'n anodd iawn gwella rhai ysgolion o hyd, ac mae'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn aros yn rhy isel yn rhy hir. Ychydig iawn o awdurdodau lleol yng Nghymru yn unig sydd wedi rhybuddio ysgolion yn yr amgylchiadau hyn.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- A1 ddarparu cyfres gyffredin a chynhwysfawr o ddadansoddiadau data perfformiad ysgolion i'r holl ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn ddigon cynnar yn ystod tymor yr hydref i nodi tanberfformiad er budd y dysgwyr; a
- A2 darparu arweiniad clir a hyfforddiant i awdurdodau lleol a chyryff llywodraethol ar ddefnyddio eu pwerau ymyrryd statudol, gan gynnwys cyflwyno rhybuddion.

Dylai awdurdodau lleol:

- A3 dargedu eu hadnoddau'n agosach ar yr ysgolion hynny y mae angen eu gwella fwyaf;
- A4 sicrhau bod yr holl ysgolion yn deall yn llawn y meini prawf ar gyfer cefnogaeth ac ymyrraeth i ysgolion sy'n berthnasol iddynt;
- A5 monitro timau arweinyddiaeth ysgolion yn fwy trylwyr a darparu cefnogaeth a her i fynd i'r afael â'r diffygion;
- A6 monitro effeithiolrwydd cyrff llywodraethol yn fwy trylwyr a sicrhau bod llywodraethwyr yn gwbl ymwybodol o'u pwerau ac yn eu defnyddio'n briodol;
- A7 defnyddio eu pwerau ymyrryd i gefnogi ysgolion sy'n tanberfformio yn fwy prydlon yn ôl yr angen;
- A8 sicrhau bod ganddynt y gallu i gefnogi a herio pob ysgol;
- A9 adolygu eu trefniadau rheoli perfformiad er mwyn sicrhau bod yr holl staff, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu brocera trwy drefniadau gweithio ar y cyd ac ymgynghoriaethau allanol, yn dod â her gyson a thrylwyr i ysgolion; a
- A10 rhoi gwybodaeth lawn i aelodau etholedig sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth craffu am berfformiad ysgolion, yn enwedig y rheiny sy'n peri pryder, er mwyn eu galluogi i herio perfformiad ysgolion yn fwy cadarn.

Dylai cyrff llywodraethol:

- A11 sicrhau eu bod yn cael adroddiadau manwl am berfformiad eu hysgolion wedi'i feincnodi a'u bod yn herio'r perfformiad hwn yn briodol;
- A12 canolbwyntio ar ddwyn arweinwyr, rheolwyr ac athrawon i gyfrif; a
- A13 defnyddio eu hystod lawn o bwerau, a phwerau'r awdurdod lleol, i weithio ar y cyd â'r awdurdod i wella ysgolion.

Ansawdd polisïau awdurdodau lleol ar gyfer monitro, herio, ymyrryd a chefnogi

- 36 Mae swyddogion awdurdodau lleol yn ymwybodol, os ydynt am alluogi pob disgybl i gyflawni ei botensial addysgol, bod angen gweithdrefnau clir arnynt i'w helpu i adnabod eu hysgolion yn well ac i ymyrryd yn ôl yr angen. Mae llawer o arfer dda eisoes yn datblygu ledled Cymru, ond hefyd mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd a phrydlondeb ymyriadau. Mae angen mwy o gyfleoedd ar awdurdodau i rannu eu harferion da er mwyn dod â mwy o gysondeb. Nod yr adroddiad hwn yw amlygu enghreifftiau o arfer dda a nodi'r agweddau hynny y mae angen eu datblygu ymhellach.
- 37 Mae gan awdurdodau lleol bolisïau ar gyfer monitro, cefnogi, herio ac ymyrryd ym mhob un o'u hysgolion. Mae llawer ohonynt wrthi'n adolygu ac yn gwella'r polisïau hyn ar hyn o bryd, mewn ymgynghoriad ag ysgolion, yn dilyn y gofyniad i sefydlu trefniadau partneriaeth erbyn 2009. Mae'r cynnydd yn nifer yr ysgolion ledled Cymru y nodwyd bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arnynt hefyd wedi achosi i awdurdodau lleol ailedrych ar eu harfer a dysgu o'r profiad o gefnogi'r ysgolion hyn. Oherwydd hynny, mae llawer ohonynt yn canolbwyntio'n fwy pendant ar adnabod yr ysgolion hynny sy'n tanberfformio. Mae gan y trefniadau partneriaeth sy'n dod i'r amlwg y potensial i sicrhau bod awdurdodau'n ymyrryd yn effeithiol yn yr ysgolion hyn, ond dim ond os ydynt yn defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael iddynt.
- 38 Yn gyffredinol, mae polisïau awdurdodau lleol yn cynnwys:
- manylion am sut y bydd awdurdodau'n monitro ysgolion;
 - y ffactorau a fydd yn cael eu hystyried wrth roi ysgolion mewn gwahanol gategoriâu;
 - gwybodaeth am hawl i unrhyw gefnogaeth ychwanegol sy'n gysylltiedig â lefelau perfformiad; a
 - threfniadau adolygu ac adrodd.
- 39 Fodd bynnag, nid yw'r holl bolisïau yn ddigon cadarn nac yn dryloyw hyd yma, yn enwedig yn y meini prawf y maent yn eu defnyddio i gategoreiddio ysgolion a phenderfynu ar natur unrhyw ymyrraeth ddilynol. Hefyd, nid yw'r meini prawf yn cael eu rhannu'n llawn gydag ysgolion bob tro. Oherwydd hynny, nid yw'r ysgolion hyn yn deall y meini prawf nac yn gwybod pa fath o ymyrraeth y mae ganddynt hawl i'w ddisgwyl.

Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn adolygu ac yn arfarnu ysgolion?

Ymweliadau monitro ag ysgolion

- 40 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae gan swyddogion ddealltwriaeth dda o sut mae eu hysgolion yn perfformio. Maent yn cael y ddealltwriaeth hon trwy ddadansoddi data perfformiad ysgolion a thrwy eu hymweliadau monitro ag ysgolion.
- 41 Mae awdurdodau lleol yn cynllunio rhaglenni ffurfiol o ymweliadau ag ysgolion trwy gydol y flwyddyn. Mae gan yr ymweliadau hyn agendâu cytûn. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau rheolaidd gan swyddogion, adolygu a monitro ychwanegol mewn ysgolion unigol, ac ymweliadau monitro ar gyfer y Wobr Sgiliau Sylfaenol neu farciau ansawdd a gwobrau eraill. Fel arfer, mae ysgolion y nodwyd bod angen cefnogaeth ychwanegol arnynt gan awdurdodau lleol yn cael ymweliadau mwy rheolaidd, er nad yw ysgolion yn cael gwybod y rhesymau llawn dros hyn bob tro.
- 42 Yn gyffredinol, mae ymweliadau yn ystod tymor yr hydref yn canolbwyntio ar adolygiad blynyddol o berfformiad ac ar gytuno ar dargedau realistig a heriol ar gyfer perfformiad yn y dyfodol. Mae ymweliadau eraill yn canolbwyntio ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys hunanarfarnu, cynllunio ar gyfer datblygu a materion sy'n benodol i'r ysgol.
- 43 Mewn rhai awdurdodau lleol, mae uwch swyddogion yn cyfrannu'n uniongyrchol at adolygiadau perfformiad blynyddol ysgolion penodol, er enghraifft ysgolion sy'n peri pryder neu bob ysgol uwchradd. Fel arfer, mae'r trefniant hwn yn rhoi her gadarn i ysgolion i wella cyflawniad disgyblion ac yn enghraifft o arfer dda.

Defnyddio data perfformiad

- 44 Mae absenoldeb cyfres gytûn o ddata perfformiad ledled Cymru a dulliau cyffredin o ddefnyddio data yn ei gwneud yn anodd meincnodi perfformiad. Mae diffyg cysondeb o ran y modd y caiff data ei ddefnyddio i herio a chefnogi ysgolion. Hefyd, mae dadansoddiadau sy'n cymharu perfformiad ysgol yng nghyfnod allweddol 4 â pherfformiad eraill sydd â lefel debyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cyrraedd yn rhy hwyr yn y flwyddyn academaidd i amlygu tanberfformiad yn ddigon cynnar i gymryd camau adfer er budd dysgwyr.
- 45 Mae awdurdodau lleol yn darparu ystod briodol o ddata i ysgolion. Gan amlaf, mae'r data hwn yn galluogi ysgolion i olrhain eu cynnydd dros amser ac i gymharu eu perfformiad ag ysgolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tebyg, yn lleol ac yn genedlaethol.
- 46 Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn gwella'r modd y maent yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn herio ac ymyrryd mewn ysgolion sy'n cael anawsterau. Fodd bynnag, nid yw rhai awdurdodau lleol yn defnyddio data'n ddigon trylwyr o hyd i adnabod ysgolion sy'n tanberfformio neu eu herio ar sut i wella. Mewn llawer o'r ysgolion y nodwyd eu bod yn peri pryder yn ystod arolygiadau Estyn, nid oedd

swyddogion yr awdurdod lleol wedi trafod data yn ddigon trylwyr yn ystod eu hymweliadau cyn yr arolygiad i lunio barn gywir am berfformiad yr ysgol.

- 47 Mae rhai awdurdodau lleol yn darparu data cymharol ar gyfer ysgolion uwchradd ar lefel adrannau pwnc. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes digon yn cael ei wneud i gymharu perfformiad adrannau pwnc ac i nodi'r angen am ymyrraeth.
- 48 Mae ysgolion sy'n tanberfformio yn gwella gyflymaf pan fo'r pennaeth a'r uwch reolwyr, y corff llywodraethol a'r holl swyddogion sy'n gweithio gyda'r ysgol, yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o berfformiad yr ysgol. Mae defnyddio systemau electronig yn fuddiol er mwyn rhannu a chytuno ar wybodaeth ddiweddar ac mae'r arfer hon yn cynyddu.

Adolygiadau â ffocws o'r ddarpariaeth

- 49 Yn ogystal ag ymweliadau rheolaidd gan swyddogion, mae llawer o awdurdodau lleol hefyd yn cynnal rhaglen o adolygiadau manylach mewn ysgolion unigol. Mae'r rhain yn fwyaf effeithiol pan maent yn targedu ysgolion y mae gan yr awdurdod bryderon yn eu cylch yn hytrach na'u darparu ar raglen dreigl ar gyfer pob ysgol. Mae targedu adnoddau yn helpu i reoli'r perygl o ysgolion yn tanberfformio.
- 50 Erbyn hyn, mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn cynnwys arsylwadau gwersi yn yr adolygiadau hyn fel mater o drefn. Mae hyn yn darparu tystiolaeth uniongyrchol o safonau ac o addysgu ac yn gwella gwybodaeth yr awdurdod am ei ysgolion. Yn gynyddol, mae'r arsylwadau o wersi yn cael eu cynnal ar y cyd gan swyddog yr awdurdod lleol gyda'r pennaeth, uwch reolwr arall neu arweinydd pwnc. Mae hyn yn helpu'r ysgol i gydnabod ble y mae angen gwella safonau ac yn gwella trylwyrder y tîm arweinyddiaeth wrth fonitro'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o adolygiadau'n cynnwys arsylwi gwersi. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar ddadansoddi data ac yn adlewyrchu gwybodaeth sy'n cael ei darparu gan yr ysgol yn unig.
- 51 Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau'n arfarnu ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn ddigon trylwyr yn ystod yr adolygiadau hyn. Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn rhy ddibynnol ar arolygiadau Estyn i nodi gwendidau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth yn hytrach na defnyddio eu gweithdrefnau monitro yn effeithiol. Fel arfer, nid yw'r cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diweddaraf yn cael ei fonitro na'i adrodd yn ddigon trylwyr trwy ddefnyddio tystiolaeth uniongyrchol.
- 52 Mae bron pob awdurdod lleol wedi darparu hyfforddiant a chynghor priodol i ysgolion ar ddatblygu'r broses hunanarfarnu ac, mewn sawl achos, mae dogfennau ac arweiniad cynhwysfawr yn cyd-fynd â'r hyfforddiant hwn. Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod lleol yn monitro effeithiolrwydd y broses mewn ysgolion a gallai ymgynghorwyr cyswllt drafod hunanarfarnu gyda phenaethiaid heb ddilysu'r wybodaeth y maent yn ei chael. Er bod mwyafrif yr awdurdodau lleol yn casglu adroddiadau hunanarfarnu a chynlluniau gwella bob blwyddyn fel mater o drefn, nid yw pob un ohonynt yn arfarnu ansawdd y dogfennau hyn ac mai llai ohonynt yn ysgrifennu at ysgolion gydag argymhellion ar gyfer gwella. Oherwydd hynny, nid yw ysgolion yn gwybod ble mae diffygion yn y meysydd hyn ac maent yn synnu pan gaiff y rhain eu nodi yn ystod arolygiad.

- 53 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn llunio adroddiad yn dilyn ymweliad monitro neu adolygiad, sy'n crynhoi'r canfyddiadau ac yn nodi'r argymhellion ar gyfer gweithredu. Mae'r rhai mwyaf effeithiol yn cael eu cyhoeddi'n brydlon, yn nodi diffygion ac yn rhoi arweiniad clir i ysgolion ar sut i wella. Mewn lleiafrif o awdurdodau, mae'r argymhellion yn yr adroddiadau hyn yn canolbwyntio gormod ar y broses a'r ddarpariaeth yn hytrach nag ar safonau ac yn aml ni roddir unrhyw derfynau amser ar gyfer cwblhau camau gweithredu. Ambell waith, mae adroddiadau ar gyfarfodydd gosod targedau yn canolbwyntio gormod ar y broses o osod targedau ac nid ar b'un a yw'r targedau hyn yn ddigon heriol neu realistig ai peidio.
- 54 Mae rhai awdurdodau'n crynhoi'r canfyddiadau o'r adolygiadau o'u holl ysgolion er mwyn amlygu materion cyffredin a rhannu arfer dda. Mae hyn yn ddefnyddiol i ysgolion wrth iddynt arfarnu eu harfer eu hunain ac yn eu gwneud yn ymwybodol o fentrau llwyddiannus mewn ysgolion lleol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ni chaiff hyn ei wneud yn ddigon aml i helpu ysgolion sy'n tanberfformio i ddeall sut i wella.

Rhoi ysgolion mewn categorïau

- 55 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio eu gwybodaeth fanwl am ysgolion i'w rhoi mewn categorïau risg. Mae'r broses hon yn sbarduno cefnogaeth sy'n gymesur â'r angen. Mae swyddogion yn defnyddio data perfformiad a chanlyniadau ymweliadau monitro i benderfynu ar y categori ar gyfer ysgol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio canlyniadau arolygiadau Estyn hefyd ac mae lleiafrif ohonynt yn cynnwys ystyriaethau cyllidebol neu staffio neu adborth gan rieni a disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r categoreiddio yn ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth bob tro. Dim ond rhai awdurdodau sy'n adolygu categori'r ysgol wrth i'r arweinyddiaeth newid.
- 56 Mae aneffeithiolrwydd y corff llywodraethol yn ddiffyg a nodwyd mewn llawer o ysgolion y mae angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arnynt. Fodd bynnag, yn aml, nid yw effeithiolrwydd y corff llywodraethol yn faen prawf wrth i awdurdodau lleol gategoreiddio ysgolion ar sail eu risg. Fel arfer, nid yw cefnogaeth i'r corff llywodraethol yn ymddangos fel rhan o hawl yr ysgol i gael cefnogaeth ychwanegol.
- 57 Mae llawer o awdurdodau yn asesu'r risg yn eu holl ysgolion ac yn eu rhoi mewn categorïau sy'n amrywio o'r rheiny y mae angen ychydig iawn o gefnogaeth arnynt i'r rheiny y mae angen ymyrraeth fwy dwys arnynt. Ym mron pob awdurdod, mae categori ar wahân ar gyfer yr ysgolion hynny y nodwyd bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arnynt mewn arolygiad. Mae nifer y categorïau yn amrywio o dri i chwech. Lle mae mwy na phedwar ohonynt, anaml iawn y mae'r swyddogion yn defnyddio'r holl gategorïau ac mae llai o eglurder ynghylch sut y mae'r rhain yn amrywio.
- 58 Mae lleiafrif o bolisiâu awdurdodau lleol yn rhoi arweiniad manwl ar y meini prawf sy'n cael eu defnyddio i roi ysgolion yn y gwahanol gategorïau. Mae llawer ohonynt hefyd yn ddiffinio'r hawl i gefnogaeth sy'n gysylltiedig â phob categori ac yn esbonio'n glir y broses ar gyfer monitro cynnydd. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o bolisiâu yn gwbl effeithiol hyd yma oherwydd:
- dim ond newydd ddechrau eu rhoi ar waith ar gyfer pob ysgol y mae llawer o awdurdodau;

- nid oes gan y mwyafrif o awdurdodau feini prawf digon penodol ar gyfer rhoi ysgolion mewn gwahanol categorïau;
- nid yw maint ac union natur y gefnogaeth neu'r ymyrraeth y mae gan ysgolion ym mhob categori hawl i'w chael wedi'i nodi'n ddigon clir bob tro;
- nid yw rhai awdurdodau lleol yn cyfathrebu'n ddigon clir i ysgolion pa categori y maen nhw ynddo; a
- hyd yn oed pan fo ysgol yn gwybod pa categori y mae ynddo, nid yw penaethiaid, llywodraethwyr a staff bob amser yn deall pam a gallant briodoli hyn i ffactorau allanol yn hytrach na diffygion mewnol.

Sicrhau bod llywodraethwyr yn cael gwybod am berfformiad ysgol

- 59 Hyd yn oed pan fydd awdurdodau'n defnyddio data perfformiad a gwybodaeth arall yn dda ac yn ymwybodol o lawer o'r diffygion mewn ysgolion y nodwyd eu bod yn peri pryder yn ystod arolygiad, nid ydynt bob amser:
- yn rhoi gwybod i uwch reolwyr a llywodraethwyr am eu pryderon yn ddigon clir; neu
 - yn nodi diffygion mewn arweinyddiaeth a rheolaeth cyn arolygiadau Estyn.
- 60 Mae lleiafrif o'r ysgolion hyn o'r farn bod y gefnogaeth i'w hysgol gan yr awdurdod lleol yn gyfyng cyn eu harolygiad gan Estyn. Maent yn crybwyll na chawsant ymweliadau rheolaidd gan swyddogion ac na chynhaliwyd adolygiad o'r ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, nid oedd uwch reolwyr a llywodraethwyr yn deall yn llawn pa mor wan yr oeddent. Yn yr ysgolion hyn, roedd canlyniad yr arolygiad yn syndod i'r penaethiaid, y staff a'r llywodraethwyr. Mewn rhai ysgolion, mae hyn wedi arwain at ddiwylliant o wadu ac at welliant amharod tra bod uwch reolwyr, staff a llywodraethwyr yn herio barnau'r arolygiad.
- 61 Mae llywodraethwyr yn cael y wybodaeth orau pan fydd swyddogion yr awdurdod lleol yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol o leiaf unwaith y flwyddyn fel mater o drefn er mwyn rhoi barn yr awdurdod am yr ysgol, neu pan gaiff cynrychiolydd o'r corff llywodraethol ei (g)wahodd i gymryd rhan mewn trafodaethau rhwng penaethiaid a swyddogion. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau a'r trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar ddata perfformiad ac ansawdd yr addysg yn bennaf, ac nid ydynt yn mynd i'r afael â diffygion mewn arweinyddiaeth a rheolaeth yn ddigon aml. Fel arfer, mae llywodraethwyr yn llai ymwybodol o lefel perfformiad ysgol pan fydd swyddogion yn dibynnu ar benaethiaid yn unig i rannu gwybodaeth.

**Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn ymyrryd
mewn ysgolion?**

**Cefnogaeth ar gyfer ysgolion y bernir bod angen mesurau arbennig neu
welliant sylweddol arnynt**

- 62 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gwella eu gallu i ymyrryd yn effeithiol mewn ysgolion y nodwyd bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arnynt yn ystod arolygiad Estyn. Yn gyffredinol, maent yn eu cefnogi'n dda iawn ac, fel arfer, caiff yr ysgol eu tynnu oddi ar y rhestr o fewn dwy flynedd ar gyfer mesurau arbennig ac o fewn cyfnod llai ar gyfer gwelliant sylweddol. Caiff y cynnydd gorau ei wneud pan fo'r pennaeth yn cydnabod yr angen i newid ac yn arwain y staff i dderbyn hyn.
- 63 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, mae rôl y swyddog cyswllt yn ganolog i'r rhaglen gefnogaeth. Mae ysgolion yn meithrin partneriaethau gwaith cryf gyda swyddogion cyswllt yn ystod eu cyfnodau yn y categorïau mesurau arbennig neu welliant sylweddol. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae swyddogion medrus yn meithrin perthynas gref ac ymddiriedus gyda'r ysgolion hyn ac yn cefnogi penaethiaid i wella morâl staff. Mae hyn yn wir hyd yn oed mewn ysgolion lle mae penaethiaid o'r farn y gallai'r awdurdod fod wedi gwneud mwy cyn yr arolygiad i atal yr ysgol rhag cael ei rhoi mewn categori. Mae llawer o'r ysgolion a wrthwynebodd farnau'r arolygiad i ddechrau yn deall buddion y gefnogaeth wedi hynny a gallant nodi sut y mae'r gefnogaeth hon wedi cyfrannu at wella safonau.
- 64 Mae cyrff llywodraethol ysgolion sy'n peri pryder o'r farn eu bod yn adnabod yr ysgol yn well o lawer ar ôl i'r ysgol wella nag yr oeddent cyn arolygiad Estyn. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraethwyr hyn yn cael hyfforddiant wedi'i deilwra i anghenion penodol yr ysgol bob tro. Byddai hyfforddiant felly yn helpu llywodraethwyr i ddeall eu cyfrifoldebau'n well ac i gefnogi'r ysgol yn fwy effeithiol. Yn aml, yr unig hyfforddiant sydd ar gael yw'r hyfforddiant cyffredinol sydd ar gael i'r holl lywodraethwyr.
- 65 Pan nodir bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar ysgol, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cydweithio'n dda â'r ysgol i lunio cynllun gweithredu ôl-arolygiad i'w gyflwyno i Estyn. Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn yn diffinio blaenoriaethau addas, ond nid yw camau gweithredu yn cael eu hesbonio'n glir bob tro, nid yw meini prawf llwyddiant yn ddigon penodol ac nid yw rhai targedau yn ddigon heriol i sicrhau bod yr ysgol yn gwella. Mae llawer o ysgolion yn cael cyllid ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad ac i fynd i'r afael â diffygion yn y gyllideb a allai fod wedi cyfrannu at farn yr arolygiad.
- 66 Yn ogystal â chydweithio'n agos â'r ysgol i lunio cynllun gweithredu ar ôl yr arolygiad, rhaid i'r awdurdod lleol baratoi datganiad ysgrifenedig o unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd a chyflwyno hwn i Estyn. Ar hyn o bryd, nid yw pob awdurdod lleol yn paratoi datganiadau digon clir o gamau gweithredu ar gyfer ymyrraeth mewn ysgol sy'n peri pryder. Ceir mwy o arweiniad ar ddatganiadau gweithredu yn Atodiad 5.

- 67 Mae'r ysgolion hyn yn cael y budd mwyaf pan fydd 'strategaeth ymadael' glir yn cael ei llunio i leihau cefnogaeth o'r cychwyn. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn deall lefel y gefnogaeth sydd ar gael yn ystod pob cyfnod a'r lleihad graddol mewn ymweliadau a chyllid ychwanegol a fydd yn digwydd dros amser ac wrth i'r ysgol wella. Yn yr ysgol sy'n cynnal gwelliannau, mae swyddogion yn lleihau amledd eu hymweliadau'n raddol ac mae uwch swyddogion yr awdurdod lleol ac aelodau etholedig yn parhau i fonitro cynnydd yr ysgol. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw datganiadau gweithredu awdurdodau lleol yn cynnwys manylion am leihad graddedig, addas i lefel y gefnogaeth pan gaiff ysgol ei thynnu'n ffurfiol oddi ar restr yr ysgolion sy'n peri pryder a phan nad yw'n cael ei monitro'n rheolaidd gan Estyn mwyach. O ganlyniad, nid yw ychydig iawn o ysgolion yn parhau i wneud cynnydd wedi iddynt gael eu tynnu o gategori gan fod y gefnogaeth yn cael ei thynnu'n ôl yn rhy gyflym.

Cefnogaeth ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder ac ysgolion eraill sy'n tanberfformio

- 68 Mae ysgolion y mae awdurdodau lleol yn nodi eu bod yn tanberfformio yn cael mathau tebyg o gefnogaeth i'r rheiny sy'n cael eu rhoi'n ffurfiol yn y categori o ysgolion sy'n peri pryder, er bod y gefnogaeth hon yn llai dwys fel arfer. Hefyd, mae'r ysgolion hyn yn gwneud y cynnydd mwyaf wedi i'r pennaeth a'r corff llywodraethol gytuno ar gynlluniau gweithredu manwl i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd.
- 69 Yn y ddau fath o ysgol, mae swyddogion yn darparu ystod o gefnogaeth ac arweiniad cydlynus yn gyflym. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael cefnogaeth a hyfforddiant wedi'u targedu ar gyfer meysydd y cwricwlwm sydd â pherfformiad isel ac ar gyfer agweddau ysgol gyfan, fel addysgu ac asesu. Yn yr arfer orau, mae hyn yn cynnwys cefnogaeth ymarferol yn yr ystafell ddosbarth i ddatblygu medrau athrawon. Fodd bynnag, fel arfer mae'r gefnogaeth hon yn canolbwyntio gormod ar addysgu ac nid yw'n canolbwyntio digon ar safonau. Mae llawer o awdurdodau'n darparu ystod o gyfleoedd i ysgolion gydweithio â'i gilydd i rannu arfer dda, sy'n cael eu gwerthfawrogi gan athrawon. Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn ymestyn ystod eu rhwydweithiau pwnc ar gyfer ysgolion uwchradd y tu hwnt i'r pynciau craidd, er mwyn herio a chefnogi arweinwyr pwnc yn fwy effeithiol.
- 70 Yn gyffredinol, mae swyddogion yn rhoi cyngor a hyfforddiant addas i benaethiaid, staff a llywodraethwyr i'w helpu i ddatblygu systemau i arfarnu gwaith yr ysgol yn well ac i gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer gwella.
- 71 Fodd bynnag, nid yw rhai awdurdodau'n darparu digon o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer timau arweinyddiaeth ysgolion, hyd yn oed pan fo pryderon ynghylch arweinyddiaeth a rheolaeth. Nid ydynt yn darparu mentoriaid cymheiriaid nac yn datblygu medrau rheoli pobl yr arweinwyr ysgol hyn.
- 72 Mae lefelau presenoldeb ac ymddygiad gwael yn aml yn broblemau i ysgolion y nodwyd eu bod naill ai'n tanberfformio gan yr awdurdod lleol neu eu bod yn peri pryder yn ystod arolygiad Estyn. Yn yr arfer orau, mae aelodau'r gwasanaeth cynhwysiad yn cydweithio'n dda ag ymgynghorwyr cyswllt a staff cymorth eraill i gyflwyno gwelliannau. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw staff o wasanaethau gwella ysgolion a staff o wasanaethau cynhwysiad yn cydweithio'n ddigon da â'i gilydd i fynd i'r afael ag achosion presenoldeb ac ymddygiad gwael. Nid yw staff y gwasanaethau

cynhwysiad yn cael eu cynnwys digon yn y gwaith o gynllunio neu adolygu'r gefnogaeth y mae ysgol yn ei chael ac nid ydynt yn cael gwybodaeth lawn am berfformiad ysgolion.

Targedu cefnogaeth mewn cyfrannedd gwrthdro i lwyddiant

- 73 Mae'r gwasanaethau addysg mwyaf effeithiol yn gwahaniaethu eu dulliau yn gynyddol ac yn targedu eu hadnoddau lle mae eu hangen fwyaf. Mae'r awdurdodau lleol hyn yn sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n benodol ar godi safonau mewn ysgolion sy'n tanberfformio. Nid yw'r awdurdodau lleol sy'n ceisio darparu cymaint o gefnogaeth â phosibl i bob ysgol yn gallu targedu cefnogaeth yn ddigon pendant. Yn yr awdurdodau hyn, mae ysgolion yn disgwyl cael lefel uchel o gefnogaeth o hyd, hyd yn oed os ydynt yn perfformio'n dda iawn. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r awdurdod i ymateb i ysgolion sy'n tanberfformio ac yn achosi ysgolion i ddibynnu gormod ar swyddogion a pheidio â chymryd digon o gyfrifoldeb dros wella eu hunain.
- 74 Hyd yn oed pan fydd y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwahaniaethu ei gefnogaeth ar gyfer ysgolion yn fawr, nid oes gan waith rhai gwasanaethau arbenigol, fel athrawon cymorth peripatetig Cymraeg ail iaith neu Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), ddigon o ffocws. Yn yr achosion hyn, caiff pob ysgol ddyraniad cyfartal, beth bynnag fo'i hangen. Nid yw'r dyraniad hwn yn ddigonol ar gyfer yr ysgolion hynny sydd â diffygion penodol yn y meysydd hyn.
- 75 At ei gilydd, hyd yma nid yw awdurdodau lleol yn nodi, yn cefnogi nac yn ymyrryd yn yr ysgolion sy'n tanberfformio'n fwyaf difrifol yn ddigon cyflym nac yn ddigon cryf i'w hatal rhag cael eu nodi fel ysgolion sy'n peri pryder yn ystod arolygiadau Estyn. Nid yw'r awdurdodau hynny sy'n ymyrryd bob amser yn llwyddo i wella'r ysgol hyd yn oed, gan nad ydynt yn defnyddio'r ystod lawn o bwerau'n ddigon buan nac yn rhoi digon o sylw i ddatblygu arweinyddiaeth a rheolaeth.

Monitro cynnydd mewn ysgolion a gefnogir

- 76 Mae bron pob awdurdod lleol yn monitro'n dda y cynnydd y mae ysgolion sy'n peri pryder yn ei wneud wrth fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod arolygiad Estyn. Mae'r mwyafrif ohonynt hefyd yn monitro cynnydd ysgolion eraill y mae angen eu gwella yn dda.
- 77 Mae monitro'n fwyaf effeithiol:
- pan fydd y pennaeth a'r corff llywodraethol yn cael adroddiad ysgrifenedig manwl ar ôl pob ymweliad adolygu, sy'n cynnwys meysydd cytûn ar gyfer eu datblygu, wedi'u cyfyngu i ddwy neu dair agwedd ar y tro;
 - pa fydd swyddogion yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol er mwyn trafod y cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud;
 - pan fydd prif swyddogion ac aelodau etholedig yn cael adroddiadau cynnydd; a
 - pan fydd cyfarfodydd yn cynnwys rheolwyr gwasanaethau cynhwysiad ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

- 78 Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod lleol yn monitro effaith ymyriadau'n ddigon da ac nid yw pob ysgol yn cael adborth ysgrifenedig bob tro. Mae'r ysgolion hyn yn ei chael yn anoddach gwneud cynnydd.
- 79 Mae llawer o'r awdurdodau lleol sydd wedi bod ag ysgol ar restr Estyn o ysgolion sy'n peri pryder yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi defnyddio'r profiad i adolygu a gwella eu gweithdrefnau adolygu eu hunain. Oherwydd hynny, mae trylwyrder eu prosesau adolygu ac ansawdd eu hadroddiadau wedi gwella.

Gallu awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion

- 80 Yng Nghymru, mae gan lawer o awdurdodau lleol allu ymgynghorol cyfyng ac mae'n rhaid iddynt ddefnyddio adnoddau o'r tu allan i'w cyflenwad uniongyrchol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cefnogi a herio ysgolion sy'n peri pryder yn briodol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio arweinwyr ysgolion fel mentoriaid cymheiriaid ac ymgynghorwyr i helpu penaethiaid yn yr ysgolion hynny. Mae grwpio awdurdodau yn bedwar consortiwm ledled Cymru yn eu galluogi'n gynyddol i frocera mwy o gefnogaeth ar gyfer agweddau ar y ddarpariaeth lle nad oes ganddynt eu harbenigedd digonol eu hunain. Hefyd, mae rhai awdurdodau'n cyflogi ymgynghorwyr allanol ar sail ran-amser i gynyddu gallu'r gwasanaeth gwella ysgolion i fonitro a herio ysgolion. Fodd bynnag, nid yw rhai awdurdodau yn cynyddu eu gallu'n ddigonol o hyd i ddarparu'r ystod lawn o gefnogaeth i bob math o ysgol.
- 81 Nid oes gan leiafrif o awdurdodau lleol yr arbenigedd i herio, cefnogi nac ymyrryd yn effeithiol mewn ysgolion arbennig. Nid yw'r awdurdodau hyn yn gwybod p'un a yw disgyblion yn eu hysgolion a'u hunedau arbennig yn cyflawni safonau da ai peidio. Felly, mewn rhai ysgolion arbennig:
- ni chaiff diffygion eu nodi'n ddigon buan, yn enwedig ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol;
 - hyd yn oed pan gaiff diffygion eu cydnabod, nid oes gan yr awdurdod lleol y gallu i ymyrryd yn briodol; a
 - phan gaiff un o'r ysgolion hyn ei rhoi yn y categori pryder yn dilyn arolygiad Estyn, nid yw'n gwneud cynnydd yn ddigon cyflym.
- 82 Mae llawer o awdurdodau lleol yn rhoi cefnogaeth dda i unedau cyfeirio disgyblion. Fodd bynnag, nid oes gan bob un ohonynt systemau effeithiol i olrhain y ddarpariaeth addysgol ar gyfer disgyblion yn yr unedau hyn. Yn yr unedau cyfeirio disgyblion hynny y nodwyd bod angen iddynt wella, nid yw awdurdodau lleol yn sicrhau:
- bod yr holl ddisgyblion yn cael eu hawl lawn o oriau wedi'u haddysgu;
 - bod addysgu a dysgu o ansawdd digon uchel;
 - bod rheolwyr yn arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a chanlyniadau'n drylwyr; ac
 - yr aethpwyd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

- 83 Mewn rhai ysgolion bach, mae penodi pennaeth newydd ar ôl cytuno ar amodau ymddeol yn gynnar y pennaeth blaenorol wedi gwella'r ysgol yn gyflym iawn. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol yn cael trafferth recriwtio penaethiaid ar gyfer ysgolion bach, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. At ei gilydd, nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi datblygu strategaethau digon effeithiol i sicrhau bod arweinwyr a rheolwyr ysgolion bach eu hunain yn datblygu'r gallu i wella ysgolion.

Sut mae awdurdodau'n sicrhau atebolrwydd?

Sicrhau ansawdd rhaglenni ymyrraeth a chefnogaeth

- 84 At ei gilydd, mae ansawdd y gefnogaeth sy'n cael ei darparu i ysgolion, wedi iddynt gael eu nodi fel ysgolion sy'n peri pryder, yn gyffredinol dda ac mae llawer o ysgolion yn gwerthfawrogi cydweithio â'u swyddogion cyswllt. Fodd bynnag, mae gwaith swyddogion unigol yn amrywio'n sylweddol. Nid yw trylwyrder y modd y caiff penaethiaid a llywodraethwyr eu herio am berfformiad yr ysgol bob amser yn gyson, ac nid oes gan swyddogion cyswllt yr holl fedrau a'r arbenigedd i helpu ysgolion sy'n tanberfformio i wella'n ddigonol.
- 85 Mae'r awdurdodau lleol sy'n fwyaf effeithiol o ran gwella cysondeb ac ansawdd gwaith eu swyddogion cyswllt:
- yn sicrhau bod uwch swyddogion yn monitro pob adroddiad ymweld;
 - yn meddu ar brosesau da ar gyfer adnabod a rhannu arfer orau;
 - yn defnyddio gwybodaeth a medrau'r swyddogion mwyaf effeithiol i ddatblygu a hyfforddi staff eraill;
 - yn defnyddio rheoli perfformiad i wella gwaith swyddogion; ac
 - yn meddu ar brosesau effeithiol ar gyfer sefydlu staff.
- 86 Mewn rhai awdurdodau, mae prosesau da i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i holl staff y gwasanaeth am fentrau lleol a blaenoriaethau cenedlaethol, ac i sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu eu medrau. Mae hyn eisoes yn gwella cysondeb eu gwaith gydag ysgolion.
- 87 Fodd bynnag, nid yw prosesau rheoli perfformiad yn ddigon trylwyr ym mhob awdurdod lleol ac, fel arfer, nid yw uwch swyddogion yn monitro effaith cefnogaeth nac ymyriadau'n ddigon da i nodi p'un a yw'r arweiniad sy'n cael ei ddarparu gan swyddogion cyswllt yn ddigon da neu'n ddigon clir.
- 88 Yn gyffredinol, nid yw gwaith staff ychwanegol nac ymgynghorwyr allanol yn cael ei fonitro'n ddigon agos i sicrhau eu bod yn gweithredu polisiau'n gyson a'u bod yn cael eu dwyn i gyfrif am effaith eu cefnogaeth.
- 89 Mae tua hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn rhannu'r gwaith o fonitro a chefnogi ysgolion gyda gwasanaeth ymgynghorol traws-awdurdod. Maw mwyafrif yr awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau hyn wedi diwygio a gwella eu trefniadau gweithio ar y cyd yn ddiweddar yn barod i roi eu cytundeb partneriaeth gydag ysgolion ar waith, ac mewn ymateb i'r nifer gynyddol o ysgolion y nodir eu bod yn peri pryder.

- 90 Yn yr arfer orau, caiff swyddog ei benodi/phenodi fel rheolwr cymorth i gydlynu gwaith yr holl swyddogion sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Yn yr achosion hyn, mae rolau'r holl swyddogion wedi'u diffinio'n glir ac mae trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ac ar gyfer rhannu gwybodaeth yn cael eu deall yn glir a'u cytuno gan bawb sydd ynghlwm. Mewn achosion eraill, nid yw swyddogion unigol yn ddigon atebol am wella ysgolion unigol ac nid yw uwch swyddogion yn gwbl ymwybodol o ddiffygion, gan nad yw'r ymweliadau sy'n cael eu cynnal gan sawl gwahanol aelod o'r staff yn cael eu cydlynu. Mewn rhai o'r awdurdodau hyn, nid yw swyddogion yn dyrannu eu hamser yn briodol i'r ysgolion hynny sydd â'r angen mwyaf ac nid yw uwch swyddogion yn monitro effaith hyfforddiant a chefnogaeth yn ddigon trylwyr.

Cydweithio ag esgobaethau lle bo hynny'n briodol

- 91 Mae amrywiad eang yn y modd y mae awdurdodau lleol yn cydweithio ag esgobaethau i wella ysgolion enwadol sy'n peri pryder. Yn yr arfer orau, mae cydweithio agos rhwng yr esgobaeth, uwch swyddogion a swyddogion cyswllt unigol. Mae'r berthynas hon yn sicrhau bod yr awdurdod a'r esgobaeth yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol er mwyn mynd i'r afael â diffygion mewn arweinyddiaeth a gwella'r gefnogaeth effeithiol i wella ysgolion. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw awdurdodau'n trosglwyddo data perfformiad am ysgolion perthnasol i'r esgobaeth fel mater o drefn.
- 92 Nid yw lleiafrif o awdurdodau:
- yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r esgobaeth am ysgolion sy'n peri pryder; nac
 - yn cynnwys yr esgobaeth yn ddigon buan wrth fynd i'r afael ag arweinyddiaeth a rheolaeth wael mewn ysgolion.

Defnyddio'r ystod lawn o bwerau awdurdodau lleol i wella ysgolion

- 93 Gall llawer o awdurdodau lleol roi enghreifftiau o ysgolion y maent wedi nodi eu bod yn tanberfformio sydd wedi gwella wedi hynny yn dilyn cefnogaeth ddwys.
- 94 Yr awdurdodau lleol mwyaf llwyddiannus wrth wella ysgolion yw'r rheiny y mae eu huwch swyddogion, gan gynnwys y prif swyddog addysg, yn cyfrannu'n bersonol at herio ysgolion sy'n tanberfformio i wella ac yn monitro'r cynnydd y maent yn ei wneud. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae'n ofynnol i benaethiaid yr ysgolion hyn fynychu cyfarfodydd pwyllgor archwilio addysg yr awdurdod i drafod perfformiad eu hysgol gydag aelodau etholedig.
- 95 Ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r ystod lawn o bwerau sydd ar gael iddynt i ymgysylltu â'r holl benaethiaid a chyflwyno gwelliannau i ddisgyblion. Yn gyffredinol, mae awdurdodau'n gyndyn i arfer eu bwerau statudol oni bai bod pob dull arall wedi methu â mynd i'r afael â'r diffygion yn yr ysgol. Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn poeni y gallai defnyddio'r bwerau hyn yn ffurfiol niweidio'r berthynas gydweithredol y maent wedi'i meithrin gyda'u hysgolion. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion yn anodd iawn eu gwella trwy ddulliau cydweithredol o hyd, ac mae'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn aros yn rhy isel yn rhy hir.

- 96 Ychydig iawn yn unig o awdurdodau ledled Cymru sydd wedi cyflwyno rhybudd i ysgol (gweler Atodiad 4). Fodd bynnag, mae nifer gynyddol o enghreifftiau o ymyriadau anffurfiol gan awdurdodau fel rhagarweiniad i brosesau ffurfiol. Mae rhai awdurdodau lleol wedi anfon llythyrau i ysgolion cyn cyflwyno rhybudd. Ym mron pob achos, mae hyn wedi bod yn ddigon i ysgogi gwelliannau.
- 97 Nid yw swyddogion awdurdodau lleol yn deall yn llawn y broses o gyflwyno rhybuddion. Mewn llawer o ysgolion, nid yw penaethiaid a llywodraethwyr yn ymwybodol o bwerau statudol awdurdodau lleol ac nid ydynt yn deall y camau y gall yr awdurdod eu cymryd os nad yw'r ysgol yn gwella. Mae angen arweiniad a chynghor pellach ar gyfer awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethol fel ei gilydd.
- 98 Mewn lleiafrif o ysgolion sy'n peri pryder, mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio ei bwerau i benodi llywodraethwyr ychwanegol. Mae hyn wedi dod ag arbenigedd ychwanegol i atgyfnerthu'r corff llywodraethol a'i alluogi i herio a chefnogi'r ysgol yn fwy effeithiol. Nid oes unrhyw awdurdod lleol wedi disodli'r corff llywodraethol gyda Bwrdd Gweithredol Dros Dro hyd yn hyn.
- 99 Nid yw awdurdodau bob amser yn cefnogi llywodraethwyr yn ddigon da wrth iddynt fynd i'r afael â gwendidau yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol. Nid ydynt yn rhoi digon o gyngor na chefnogaeth i gyrff llywodraethol i'w helpu i ddefnyddio gweithdrefnau rheoli perfformiad a gweithdrefnau cymhwysedd yn briodol. Mewn rhai awdurdodau, mae swyddogion wedi cydweithio'n dda â chyrrff llywodraethol i wella arweinyddiaeth ysgolion. Mae'r ymagweddau hyn yn cynnwys:
- rhoi gwybod i gyrff llywodraethol yn glir ar bapur am wendidau yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth;
 - eu hatgoffa am eu cyfrifoldebau a'u pwerau fel llywodraethwyr; ac
 - uwch swyddogion yn cyfarfod â chyrrff llywodraethol i drafod y posibilrwydd o ddechrau camau gallu yn erbyn pennaeth.
- 100 Mewn rhai ysgolion, hyd yn oed pan fo'r llywodraethwyr yn ymwybodol o ddiffygion yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, maent yn gyndyn o gymryd camau cadarn ac nid ydynt yn defnyddio eu pwerau llawn i fynd i'r afael â thanberfformiad, gan gynnwys defnyddio gweithdrefnau gallu.

Pa mor wybodus yw aelodau etholedig?

- 101 Yn yr arfer orau, mae aelodau etholedig yn cael gwybodaeth reolaidd am gynnydd ysgolion yn eu hawdurdod trwy adroddiadau blynyddol ar berfformiad sy'n cwmpasu ystod eang o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys tueddiadau mewn perfformiad dros amser, cynnydd gwahanol grwpiau o ddisgyblion gan gynnwys y rheiny sydd fwyaf agored i niwed, cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud o un cyfnod allweddol i'r llall, pa mor dda y mae ysgolion yn perfformio yn erbyn ysgolion tebyg yn lleol ac yn genedlaethol a pha mor dda y mae ysgolion yn perfformio yn erbyn targedau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cynnwys canlyniadau arolygiadau Estyn. Mae bron pob gwasanaeth addysg yn adrodd yn ôl i aelodau etholedig pan nodir fod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar ysgol.

- 102 Fodd bynnag, nid yw rôl yr aelodau, gan gynnwys y swyddogaeth craffu yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, yn ddigon cadarn i nodi a herio tanberfformio mewn ysgolion unigol. Mae swyddogion yn dueddol o amddiffyn ysgolion yn hytrach na rhoi gwybodaeth lawn i aelodau etholedig am ba ysgolion sy'n tanberfformio. Oherwydd hynny, nid oes gan aelodau ddigon o wybodaeth am berfformiad ysgolion unigol i ddwyn yr ysgolion hyn i gyfrif.

Atodiad 1: Astudiaethau achos o arfer dda

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn nodi agweddau ar arfer dda mewn awdurdodau lleol.

1 Defnyddio data i nodi a mynd i'r afael â thanberfformio ar lefel adrannau pwnc

Mae un awdurdod trefol mawr yn rhoi data cymharol i ysgolion ar lefel pynciau yng nghyfnod allweddol 4 a chaiff hwn ei rannu'n agored rhwng yr ysgolion. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol i benaethiaid uwchradd er mwyn iddynt nodi adrannau sy'n tanberfformio yn gyflym a'u herio i wella.

2 Defnyddio proffiliau data

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae un awdurdod lleol wedi datblygu proffil electronig i gadw gwybodaeth ddiweddar am ysgolion mewn 16 o feysydd allweddol, gan gynnwys data perfformiad a gwybodaeth am bresenoldeb disgyblion, darparu cynlluniau a pholisïau statudol, proffil staffio'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Bob blwyddyn, mae'r awdurdod yn diweddarau'r data ar y proffil ac yn ei anfon at ysgolion er mwyn iddynt ychwanegu eu dadansoddiad a'u hunanarfarniad eu hunain. Caiff y proffil gorffenedig ei drafod yn ystod ymweliad nesaf y swyddog cyswllt. Mewn llawer o ysgolion, mae'r dirprwy bennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr yn mynychu'r cyfarfod hefyd i drafod y proffil, gan sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhannu'n eang yn yr ysgol.

Mae'r trefniant hwn yn galluogi swyddogion yr awdurdod lleol ac uwch reolwyr ysgolion i rannu eu canfyddiadau am berfformiad yr ysgol ac, o ganlyniad, mae trafodaethau yn ystod ymweliadau swyddogion yn fwy gwybodus. Hefyd, mae'r awdurdod yn gallu nodi lle nad yw arweinwyr yn adnabod eu hysgolion yn ddigon da.

3 Meini prawf i bennu risg a chategori ysgolion

Mewn un awdurdod lleol, mae'r polisi ar gyfer ysgolion y mae angen cefnogaeth ychwanegol arnynt yn cynnwys rhestr o gwestiynau dan y penawdau 'safonau cyflawniad', 'ansawdd yr addysg', ac 'arweinyddiaeth a rheolaeth'. Y rhain yw'r cwestiynau y mae uwch swyddogion yn eu defnyddio i roi ysgol mewn categori ar gyfer cefnogaeth. Mae eu cynnwys yn y polisi yn helpu pob ysgol i arfarnu eu perfformiad eu hunain ac i nodi unrhyw faterion y mae angen eu gwella. Mae hefyd yn sicrhau bod ysgolion sy'n cael eu rhoi mewn categori cefnogaeth penodol yn deall yn glir pam y maent wedi'u rhoi yno.

4 Gwaith y swyddog cyswllt i gefnogi ysgol sy'n peri pryder

Mae un awdurdod wedi datblygu ei broses ar gyfer cefnogi ysgolion sy'n peri pryder trwy ei brofiad o weithio gyda nifer gynyddol o'r ysgolion hyn yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mewn un ysgol gynradd y mae angen ei gwella'n sylweddol, mae'r swyddog cyswllt yn ymgymryd â rôl rheolwr cymorth ac yn cydlynu gwaith yr holl ymgynghorwyr eraill. Mae hefyd yn ymweld â'r ysgol bob mis i gyfarfod â'r pennaeth, i ddarparu hyfforddiant ac i fonitro cynnydd. Yn ystod yr ymweliadau hyn, mae'r swyddog a'r pennaeth yn arsylwi gwersi gyda'i gilydd. Yna, mae'r pennaeth yn rhoi adborth i'r athro/athrawes tra bo'r ymgynghorydd yn arsylwi ac yna mae hi, yn ei thro, yn rhoi adborth i'r pennaeth.

Caiff yr ymweliadau hyn eu dilyn gan adroddiadau manwl sy'n crynhoi'r cynnydd a wnaed eisoes ac yn nodi meysydd y mae angen eu gwella. Mae'r pennaeth yn cymryd mwy o gyfrifoldeb yn raddol am osod agendâu ar gyfer y cyfarfodydd hyn, ysgrifennu adroddiadau'r ymweliadau a chofnodi canlyniadau cydarsylwadau mewn ystafelloedd dosbarth.

Mae'r ymgynghorydd cyswllt yn meithrin gallu'r ysgol i barhau i wella wedi i'r gefnogaeth ddod i ben. Pan dynnwyd yr ysgol oddi ar restr Estyn o ysgolion sy'n peri pryder, parhaodd yr ymgynghorydd â'r patrwm o gyfarfodydd, gan leihau eu hamlder yn raddol dros amser, nes ei bod yn hyderus y gall yr ysgol barhau i wella.

5 Hyfforddiant ar gyfer ymgynghorwyr

Nododd un awdurdod lleol fod adroddiadau ar ymweliadau ag ysgolion yn amrywio gormod o ran eu hansawdd ac nad oedd llawer ohonynt yn ddigon arfarnol.

Mae uwch swyddogion wedi cyflwyno rhaglen hyfforddiant strwythuredig ar gyfer yr holl ymgynghorwyr. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys uwch swyddogion medrus yn rhannu eu harbenigedd ac yn annog cydweithwyr llai profiadol trwy ddangos enghreifftiau o arfer dda. Maent hefyd yn craffu ar adroddiadau ymweliadau ac yn rhoi adborth unigol.

O ganlyniad, mae ansawdd a chysondeb adroddiadau ar ymweliadau ag ysgolion wedi gwella. Erbyn hyn, maent yn arfarnol yn bennaf, yn canolbwyntio'n fwy pendant ar safonau ac yn rhoi cyngor clir er mwyn helpu ysgolion i wella.

6 Cynllunio ac arfarnu gwaith swyddogion yr awdurdod lleol

Yn ei gynllun gweithredu ôl-arolygiad, nododd yr awdurdod lleol, gyda thros 100 o ysgolion, yr angen i wella'r modd y caiff perfformiad staff ei reoli a'r angen i fynd i'r afael ag anghysonderau yn ansawdd yr her y mae rhai ysgolion yn ei chael.

Mae rheolwyr wedi cyflwyno system electronig i gofnodi a rhannu adroddiadau ar ymweliadau ag ysgolion. Mae uwch swyddog yn monitro'r adroddiadau hyn er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn cael ei hawl o ymweliadau cyswllt, bod adroddiadau yn cael eu hanfon at ysgolion o fewn yr amser cytûn a bod yr adroddiadau o ansawdd digon uchel i helpu'r ysgol i wella.

Mae swyddogion yn cyfarfod i gytuno ar fusnes craidd y tîm er mwyn mapio amserlen o ymrwymadau. Maent yn cynllunio amser ysgrifennu yn eu hamserlen waith ac yn cytuno ar strategaethau i leihau'r risg y caiff cyfarfodydd eu canslo. Mae'r swyddog arwain yn darparu adroddiadau enghreifftiol i arwain y tîm, sydd hefyd yn gallu gofyn am hyfforddiant unigol.

Mae'r uwch swyddog yn darparu crynodeb bob blwyddyn o sawl adroddiad nad yw o'r ansawdd cytûn, a sawl ysgol sydd heb gael eu cwota o gyfarfodydd neu eu hadroddiadau o fewn yr amser cytûn a/neu heb gael adroddiad o gwbl. Caiff y crynodeb hwn ei roi i uwch reolwyr addysg a'i rhannu â'r tîm cyfan a chaiff arweinwyr tîm eu hysbysu am berfformiad swyddogion unigol.

7 Defnyddio cynllunio prosiect i sicrhau ansawdd

Mewn un ysgol uwchradd yr oedd angen iddi wella'n sylweddol, mabwysiadodd yr awdurdod lleol ddull rheoli prosiect i roi'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad ar waith. Uwch reolwyr yr ysgol oedd tîm y prosiect a'r corff llywodraethol oedd bwrdd y prosiect. Penodwyd tîm sicrhau ansawdd i ddarparu'r rôl herio a chraffu, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o uwch dîm rheoli'r ysgol, y corff llywodraethol a'r awdurdod lleol, yn ogystal ag ymgynghorydd allanol a oedd yn bennaeth. Cyfarfu'r grŵp hwn bob hanner tymor. Hefyd, craffodd uwch swyddogion yn ofalus ar yr holl ffurflenni ymweld a lenwyd gan y tîm o ymgynghorwyr a oedd yn cefnogi'r ysgol, er mwyn monitro ansawdd y gefnogaeth a'r cyngor a roddwyd.

Tynnwyd yr ysgol oddi ar restr yr ysgolion a oedd yn peri pryder ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Nododd adroddiad yr ail-arolygiad y camau effeithiol a gymerwyd gan yr ysgol a'r cynnydd da a wnaed wrth fynd i'r afael â'r argymhellion.

8 Defnyddio dull rhagweithiol

Mae un awdurdod lleol, sydd erioed wedi bod ag ysgol yng nghategori pryder Estyn, yn defnyddio dull rhagweithiol o nodi a gwella ysgolion sy'n tanberfformio. Mae'r ysgolion hyn yn cynnwys y rheiny y dyfarnwyd gradd 3 iddynt mewn unrhyw gwestiwn allweddol mewn arolygiad Estyn.

Mae'r polisi ar gyfer ysgolion y mae angen cefnogaeth ychwanegol arnynt yn diffinio pedwar cam o gefnogaeth ac yn rhestru'r meini prawf sydd cael eu defnyddio i osod ysgolion ym mhob cam. Mae grŵp cynrychioliadol o benaethiaid wedi cytuno ar y meini prawf hyn ac wedi'u llunio ar gyfer y ddau gam cyntaf. Os nad yw ysgol yn gwneud digon o gynnydd, caiff ei symud i'r cam nesaf o gefnogaeth.

Os yw ysgol yng ngham 3, y pennaeth gwella ysgolion a chynhwysiad yw'r swyddog a enwir sy'n cydlynu'r gefnogaeth a'r gwaith monitro. Gallai ysgol yng ngham 4 sbarduno ymateb statudol gan yr awdurdod lleol, a'r cyfarwyddwr addysg yw'r swyddog a enwir. Caiff cyrff llywodraethol eu cynnwys yn llawn o ddechrau'r broses, mae swyddogion cyswllt yn mynychu cyfarfodydd cyrff llywodraethol ac mae'n ofynnol i benaethiaid rhoi adroddiadau cynnydd i'r llywodraethwyr bob tymor.

Mae'r proffil uchel y mae uwch swyddogion yn ei roi i'r ysgolion hyn wedi sicrhau bod yr holl ysgolion hynny y nodwyd bod angen cefnogaeth ychwanegol arnynt yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi gwella'n sylweddol. Ychydig iawn o'r ysgolion na wnaethant wella a gafodd eu cau.

9 Adroddiadau i aelodau etholedig

Mewn un awdurdod lleol gwledig mawr, mae adroddiad i'r aelodau etholedig yn cynnwys crynodeb o ddatganiadau hunanarfarnu blynyddol holl ysgolion yr awdurdod, sy'n amlygu nodweddion da cyffredin a meysydd y mae angen eu datblygu.

10 Defnyddio adroddiadau Estyn

Mewn un awdurdod lleol, mae swyddogion cyswllt yn dadansoddi'r holl adroddiadau arolygu Estyn ar gyfer eu hysgolion ac yn cyflwyno'r prif ganlyniadau gyda'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad mewn cyfarfod ffurfiol gydag aelod y cabinet dros addysg a'r prif swyddog addysg. Mae pennaeth a chadeirydd y corff llywodraethol yn mynychu'r cyfarfod hwn hefyd a chânt eu herio am unrhyw ddiffygion a nodwyd yn yr arolygiad a'r modd y maent yn bwriadu mynd i'r afael â nhw.

Mae aelod y cabinet hefyd yn cael adroddiadau cynnydd ar ysgolion y mae'r awdurdod wedi nodi bod angen yr ymyrraeth fwyaf arnynt.

11 Craffu a herio

Mae aelodau etholedig mewn un awdurdod lleol yn dwyn penaethiaid uwchradd i gyfrif am y modd y maent yn defnyddio adnoddau ychwanegol i wneud gwelliannau. Mae pwyllgor craffu'r awdurdod yn cyfarfod â phennaeth a chadeirydd llywodraethwyr pob ysgol uwchradd ac yn gofyn cwestiynau treiddgar am gynlluniau a thargedau'r ysgol ar gyfer gwella. Wedyn, maent yn herio swyddogion ac ysgolion os yw'r gwelliannau hyn yn arafach na'r disgwyl.

Atodiad 2: Ysgolion sy'n peri pryder

Mae'r rheoliadau ar ysgolion sy'n peri pryder yn berthnasol i bob ysgol sy'n cael arolygiadau Adran 28 (Adran 10 yn y gorffennol), hynny yw, pob ysgol a gynhelir, sy'n cynnwys:

Ysgolion cymunedol	Ysgolion arbennig
Ysgolion sylfaen	Unedau cyfeirio disgyblion
Ysgolion a gynorthwyr yn wirfoddol	Ysgolion meithrin

Ym mhob arolygiad Adran 28, rhaid i'r arolygydd arwain ystyried p'un a yw'r ysgol yn methu rhoi addysg o safon dderbyniol i'w disgyblion ai peidio. Os nad oes angen mesurau arbennig ar yr ysgol, yna dylid ystyried gwelliant sylweddol. Mae'r weithdrefn y dylai'r tîm arolygu ei dilyn wedi'i hamlinellu yn Atodiad 2 llawlyfrau arweiniad Estyn ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ac ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion, sydd ar gael yn www.estyn.gov.uk.

Nifer yr ysgolion sy'n peri pryder a nodwyd mewn arolygiadau Estyn

O ddechrau'r cylch arolygu cyfredol, ym mis Medi 2004 hyd fis Rhagfyr 2008, nodwyd yn ystod arolygiadau bod 52 o ysgolion yn peri pryder. O'r ysgolion hyn, barnwyd bod angen mesurau arbennig ar 13 ohonynt, roedd gan 10 wendidau difrifol (Medi 2004 hyd fis Gorffennaf 2006) a bod angen gwella 29 ohonynt yn sylweddol (o fis Medi 2006).

	Cynradd	Uwchradd	Arbennig	UCD	Cyfanswm
Mesurau arbennig	8	4	0	1	13
Gwendidau difrifol ¹	7	1	2	0	10
Gwelliant sylweddol ²	18	7	1	3	29
Cyfanswm	33	12	3	4	52

¹ Rhwng mis Ionawr 2003 a mis Gorffennaf 2006

² O fis Medi 2006

Yn ychwanegol, barnwyd yn ddiweddarach bod angen mesurau arbennig ar ddwy ysgol gynradd a dwy ysgol arbennig y nodwyd yn wreiddiol bod ganddynt wendidau difrifol neu fod angen eu gwella'n sylweddol, oherwydd nad oeddent wedi gwneud digon o gynnydd. Nid oedd yr ysgolion hyn wedi mynd i'r afael â diffygion yn eu harweinyddiaeth a'u rheolaeth. Mae un o'r ysgolion hyn wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr ers hynny.

Yn ychwanegol, caewyd un ysgol tra roedd yn y categori mesurau arbennig a nodwyd bod gan ddwy ysgol wendidau difrifol.

Monitro cynnydd ysgolion sy'n peri pryder

Pan fydd arolygwyr yn nodi bod angen mesurau arbennig ar ysgol neu fod angen ei gwella'n sylweddol, rhaid i'r corff llywodraethol a'r awdurdod lleol baratoi cynlluniau gweithredu ar gyfer Estyn. Rhaid i'r cynlluniau hyn fynd i'r afael â'r argymhellion a'r canfyddiadau yn yr adroddiad arolygu. Mae arolygwyr Estyn wedyn yn ymweld â'r ysgol i fonitro ei chynnydd wrth roi'r cynlluniau hyn ar waith. Maent yn ymweld ag ysgolion sydd angen mesurau arbennig bob tymor a'r rheiny y mae angen eu gwella'n sylweddol ar ôl blwyddyn.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion sydd angen mesurau arbennig wedi gwneud digon o gynnydd i gael eu tynnu oddi ar y rhestr ymhen dwy flynedd. Mae llawer o ysgolion sydd â gwendidau difrifol neu sydd angen eu gwella'n sylweddol wedi cael eu tynnu o'r categori ar ôl blwyddyn a phob un ohonynt bron ymhen dwy flynedd.

At ei gilydd, mae ysgolion y tynnwyd eu henwau oddi ar y rhestr o ysgolion sy'n peri pryder wedi gwneud cynnydd mewn sawl agwedd ar eu darpariaeth. Maent wedi codi safonau, gwella presenoldeb ac ymddygiad, cyflwyno dulliau mwy effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad a phresenoldeb ac wedi gwella addysgu a dysgu.


Pam y mae nifer yr ysgolion sy'n peri pryder yn cynyddu?

Mae sawl ffactor wedi cyfrannu at y cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n peri pryder. Y newidiadau yn y diffiniadau o gategorïau yw un o'r prif resymau. Mae'n debygol y bydd mwy o ysgolion yn debygol o gael eu nodi fel ysgolion y mae angen eu gwella'n sylweddol (nad ydynt yn perfformio cystal o gryn dipyn na'r hyn sy'n rhesymol ddisgwyliedig) na fel ysgolion sydd â gwendidau difrifol.

Nid yw llawer o ysgolion sy'n peri pryder yn eu hadnabod eu hunain yn dda ac nid ydynt yn gallu cynllunio strategaethau digon effeithiol er mwyn eu helpu i wella. Nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd yn gwella'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni o un arolygiad i'r nesaf. Un o nodweddion ysgolion sy'n peri yw'r ffaith nad ydynt wedi mynd i'r afael yn llawn â'r prif argymhellion o'r arolygiad blaenorol. Mae'r ysgolion hyn yn cael mwy a mwy o drafferth gwneud cynnydd o un arolygiad i'r nesaf.

Faint o awdurdodau lleol sydd ag ysgolion sy'n peri pryder?

Niferoedd yr ysgolion fesul awdurdod mewn categori pryder Estyn yn ystod y cylch arolygu cyfredol



Yn ystod y cylch arolygu cyfredol, dim ond dau awdurdod lleol a restrwyd fel awdurdodau nad oedd ganddynt ysgol sy'n peri pryder. Nodwyd bod rhwng un a thair ysgol yn peri pryder yn y mwyafrif o awdurdodau er mis Medi 2004. Dim ond mewn pedwar awdurdod y mae mwy na thair ysgol wedi bod ar y rhestr o'r rheiny sy'n peri pryder.

Atodiad 3: Deddfwriaeth ac arweiniad ar rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol

Mae'r Cod Ymarfer ar Gysylltiadau AALI-Ysgolion (1999) yn cadarnhau;

- y dylai ysgolion allu gwneud eu penderfyniadau eu hunain am y ffordd y maent yn gweithredu ac mai dim ond ysgolion sy'n gallu cyflawni safonau addysgu a dysgu gwell; a
- bod yr AALI yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth addysgol ar gyfer pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal a bod y cymorth a gaiff ysgolion gan yr AALI yn arwyddocaol iawn wrth sicrhau canlyniadau gwell.

Mae darpariaethau Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, a ddiwygiwyd gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol arfer swyddogaethau addysg perthnasol gyda'r bwriad o hyrwyddo safonau uchel.

Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r Cod yn ceisio:

- cyfrannu at roi'r rhyddid a'r cyfrifoldeb i ysgolion ddatblygu mesurau i wella safonau;
- gallogi ysgolion i droi at yr AALI am gymorth a chefnogaeth mewn meysydd gwendid;
- galluogi AALLau i fod yn rhagweithiol wrth roi cefnogaeth a lledaenu arfer dda;
- rhoi cyfle i AALLau ymyrryd lle mae ysgolion yn siomi eu disgyblion; a
- sicrhau cydbwysedd priodol rhwng ysgolion ac AALLau.

Mae ystod ymglymiad yr AALI a amlinellir yn y cod ymarfer hwn yn cynnwys:

- monitro perfformiad yn fras ym mhob ysgol a gynhelir;
- rhoi cyngor, a her lle bydd angen, er mwyn helpu ysgolion i gynnal a chodi safonau; a
- chyfeirio ymyriad mewn rhai ysgolion lle bydd angen.

Mae Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2008 yn adeiladu ar y Cod Ymarfer i wella'r gwaith partneriaeth rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol ymhellach. Mae'n rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i roi cytundebau partneriaeth ar waith gyda phob un o'u hysgolion. Rhaid i'r cytundebau hyn gynnwys:

- gwybodaeth am y modd y bydd yr ALI yn hyrwyddo safonau uchel ac yn cefnogi ei ysgolion, yn enwedig y rheiny sy'n peri pryder, a'r rheiny y nodwyd bod angen mesurau arbennig arnynt neu fod angen eu gwella'n sylweddol yn dilyn arolygiad Adran 28;

- y ffactorau y bydd yr ALI yn eu hystyried wrth nodi ysgolion sy'n peri pryder; a'r
- cymorth y bydd awdurdodau yn ei roi i gyrff llywodraethol lle mae'r awdurdod wedi arfer ei bwerau ymyriad neu wedi atal yr hawl i gyllideb ddirprwyedig neu wedi penodi llywodraethwyr ychwanegol.

Atodiad 4: Pwerau ymyrryd awdurdodau lleol

Mewn ychydig iawn o achosion lle nad yw ysgolion yn gwneud y gwelliant angenrheidiol, naill ai ar ôl iddynt gael eu nodi gan yr awdurdod lleol neu mewn arolygiad Estyn, mae ystod o bwerau ar gael i awdurdodau lleol.

Mae'r Cod Ymarfer ar Gysylltiadau AALI-Ysgol yn ei gwneud yn glir y dylai fod proses o drafod ffurfiol cyn defnyddio'r pwerau ymyriad hyn, lle mae'r awdurdod:

- yn tynnu sylw'r corff llywodraethol a'r pennaeth at ei bryder ac yn gofyn eu barn;
- yn cynnig cyngor a chymorth wrth fynd i'r afael â'r pryder; ac
- yn annog y corff llywodraethol a'r pennaeth i roi arweiniad wrth roi trefn ar y mater.

Yn y mwyafrif helaeth o achosion, dylai hynny fod yn ddigon i sicrhau bod byth angen ymyriad ffurfiol. Mae ymdrin â'r broses hon yn sensitif yn ganolog i rôl yr awdurdod lleol mewn codi safonau, ac mae'n nodwedd unigryw o'r awdurdod lleol effeithiol.

Mae'r cod hefyd yn datgan, pan fydd angen ymyriad:

- y dylid rhoi esboniad ysgrifenedig i'r corff llywodraethol a'r pennaeth bob tro yn rhoi manylion am bryder yr awdurdod lleol a'r dystiolaeth y mae'r awdurdod lleol yn dibynnu arni a dylid rhoi cyfle i'r ysgol ymateb a datgan ei barn; a
- phan fydd cymeriad crefyddol i ysgol, rhaid rhoi gwybod i'r esgobaeth a'r ymddiriedolwyr am bryderon arwyddocaol a dylid eu cynnwys pan fydd problemau'n cael eu datrys.

Mae gan awdurdod lleol bwerau ymyriad tebyg i bwerau ymyriad Gweinidogion Cymru. Hynny yw, gallant:

- roi hysbysiad o rybudd i'r ysgol;
- gwahardd cyllideb ddirprwyedig yr ysgol;
- penodi llywodraethwyr ychwanegol ar gorff llywodraethol yr ysgol; neu
- gael Bwrdd Gweithredol Dros Dro yn lle'r corff llywodraethol.

Hysbysiadau rhybudd

O dan Adran 15 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, gallai'r awdurdod lleol benderfynu rhoi hysbysiad o rybudd i unrhyw ysgol lle mae o'r farn bod:

- safonau perfformiad disgyblion yn yr ysgol yn annerbyniol o isel a'u bod yn debygol o barhau felly oni bai bod yr awdurdod yn arddel ei bwerau ymyriad;

- dirywiad difrifol wedi bod yn y ffordd y caiff yr ysgol ei rheoli neu'i llywodraethu sy'n niweidio, neu'n debygol o niweidio safonau perfformiad disgyblion; neu
- fod diogelwch disgyblion neu staff yr ysgol yn cael ei fygwth, yn sgil dirywiad mewn disgyblaeth neu fel arall.

Yn ychwanegol, gellir dim ond rhoi hysbysiad o rybudd pan fydd awdurdod lleol wedi:

- rhoi gwybod i'r corff llywodraethol a'r pennaeth am ei bryderon yn y gorffennol; ac
- nid yw'r materion a nodwyd wedi cael eu cywiro yn unol â boddhad yr awdurdod lleol o fewn cyfnod rhesymol.

Rhaid i'r hysbysiad o rybudd amlinellu:

- y materion sydd wedi achosi i'r awdurdod lleol ddod i'r casgliad bod un neu fwy o'r profion yn cael ei fodloni;
- y camau y mae'r awdurdod lleol yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethol eu cymryd; a'r
- cyfnod y dylai'r corff llywodraethol weithredu ynddo.

Ceir rhagor o arweiniad yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Cod Ymarfer ar Gysylltiadau Awdurdodau Addysg Lleol ac Ysgolion', adrannau 99-104.

Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (adran 1) yn diffinio safonau perfformiad annerbyniol o isel disgyblion os ydynt yn isel o gymharu ag un neu fwy o'r canlynol:

- y safonau y gellir disgwyl eu bod yn rhesymol i'r disgyblion eu cyrraedd o dan yr holl amgylchiadau;
- y safonau a gyrhaeddodd disgyblion yn y gorffennol; neu'r
- safonau y mae disgyblion yn eu cyrraedd mewn ysgolion tebyg.

Pwerau ymyrryd eraill

Gall yr awdurdod ddefnyddio'r pwerau hyn pan fydd:

- a yr ysgol wedi cael ei nodi fel ysgol y mae angen mesurau arbennig arni neu fod angen ei gwella'n sylweddol yn dilyn arolygiad Estyn; neu
- b hysbysiad o rybudd wedi cael ei gyflwyno a'r ysgol wedi methu sicrhau gwelliant bodhaol o fewn y cyfnod penodol; ac
- c ar ôl i'r awdurdod roi rhybudd i'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn ysgrifenedig ei fod yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn.

Pan fydd angen mesurau arbennig ar ysgol neu fod angen ei gwella'n sylweddol, ni ellir defnyddio'r pwerau hyn nes bod cyfnod o 10 diwrnod wedi dod i ben ers i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi gyhoeddi'r hysbysiad yn cadarnhau hyn.

Pan fydd ysgol yn methu cydymffurfio'n foddhaol â hysbysiad o rybudd, rhaid defnyddio'r pwerau o fewn deufis o ddiwedd y cyfnod cydymffurfio. Os yw'r awdurdod lleol yn dod i'r casgliad y byddai defnyddio ei bwerau ymyriad yn helpu datrys y broblem, rhaid iddo wneud hynny o fewn cyfnod rhesymol.

Penodi llywodraethwyr ychwanegol

Gall awdurdod lleol benodi nifer anghyfyngedig o lywodraethwyr ychwanegol i gorff llywodraethol unrhyw ysgol a gynhelir o dan yr amgylchiadau a amlinellir uchod.

Yn achos ysgol a gynorthwyr yn wirfoddol, gall yr esgobaeth berthnasol (mewn perthynas ag unrhyw ysgol yr Eglwys yng Nghymru neu ysgol Gatholig Rufeinig), neu ba bynnag gorff sy'n penodi'r llywodraethwyr sylfaen, benodi nifer gyfatebol o lywodraethwyr sylfaen ychwanegol lle mae'r awdurdod lleol wedi arfer ei bwerau i benodi llywodraethwyr ychwanegol. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall y llywodraethwyr sylfaen barhau i gadw mwyafrif y lleoedd ar y corff llywodraethol. Yn achos ysgol a gynorthwyr yn wirfoddol y canfuwyd bod angen mesurau arbennig arni neu fod angen ei gwella'n sylweddol, gallai'r corff esgobaethol neu gorff arall sy'n penodi llywodraethwyr sylfaen benodi nifer anghyfyngedig o lywodraethwyr ychwanegol p'un a yw'r awdurdod lleol wedi arfer ei bŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol ai peidio.

Ceir rhagor o arweiniad yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Cod Ymarfer ar Gysylltiadau Awdurdodau Addysg Lleol ac Ysgolion', adrannau 105-113.

Atal pwerau dirprwyedig

Mae gan yr awdurdod lleol y pŵer i atal hawl y corff llywodraethol i benderfynu sut i wario ei gyllideb ddirprwyedig os yw'n cyflawni'r amodau angenrheidiol a restrir uchod. Caiff pwerau cysylltiedig y corff llywodraethol i wneud penderfyniadau am benodi a diarddel staff hefyd eu cyfyngu wedyn.

Mae'r cod ymarfer ar gysylltiadau awurdodau lleol ag ysgolion yn ei gwneud yn glir y dylid dim ond defnyddio atal dirprwyo fel ffordd o greu cyfle i gymryd camau cadarnhaol, i ddatrys y broblem uniongyrchol a sicrhau nad yw'n digwydd eto. Mae hyn yn golygu nad yw'n ddigon i gael rhywun y tu allan i'r ysgol i wneud penderfyniadau am gyfnod. Rhaid cryfhau gallu'r ysgol i wneud ei phenderfyniadau ei hun, a dylai'r awdurdod lleol esbonio sut i wneud hyn.

Ceir rhagor o arweiniad yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Cod Ymarfer ar Gysylltiadau Awdurdodau Addysg Lleol ac Ysgolion', adrannau 114-120.

Penodi Bwrdd Gweithredol Dros Dro (BGDD)

Caiff awdurdod lleol wneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd i ddisodli corff llywodraethol ysgol gyda BGDD lle mae'r amodau uchod yn berthnasol. Rhaid i'r awdurdod lleol gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn cyflwyno hysbysiad ar y corff llywodraethol y bydd BGDD yn cael ei benodi.

Mae'r pŵerau i benodi BGDD wedi'u bwriadu ar gyfer eu defnyddio mewn amgylchiadau lle bernir nad yw corff llywodraethol yn gallu gwella perfformiad a newid ysgol yn gyfan gwbl hyd yn oed gyda chymorth. Effaith penodi BGDD yw bod cyfnod yr holl lywodraethwyr presennol yn dod i ben o'r dyddiad penodi.

Pan fydd awdurdod lleol yn ceisio penodi BGDD mewn ysgol sylfaen neu ysgol wirfoddol, rhaid iddo ymgynghori â'r awdurdod esgobaethol neu awdurdod arall sy'n penodi cyn gwneud cais i Weinidogion Cymru. Bydd Gweinidogion yn disgwyl gweld tystiolaeth o ymglymiad llawn yr awdurdod Esgobaethol neu'r awdurdod sy'n penodi mewn unrhyw benderfyniad i sefydlu BGDD. Bydd yn ofynnol i lywodraethwyr gweithredol dros dro sicrhau bod gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol yn cael ei chadw a'i datblygu, a bod cymeriad yr ysgol yn cael ei chynnal.

Ceir rhagor o arweiniad yn atodiadau A a B o Gylchlythyr nesaf Llywodraeth Cynulliad Cymru: Arweiniad ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol ar Ysgolion sy'n Peri Pryder.

Atodiad 5: Arweiniad ar ddatganiadau gweithredu awdurdodau lleol ar ysgolion sy'n peri pryder

Cymerwyd o Gylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru: Arweiniad ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol ar Ysgolion sy'n Peri Pryder

Pan nodir bod angen mesurau arbennig ar ysgol neu fod angen ei gwella'n sylweddol, dylai'r awdurdod lleol weithio'n agos gyda phennaeth a chorff llywodraethol yr ysgol, ac os yw'n briodol, yr esgobaeth, i lunio Cynllun Gweithredu'r ysgol.

O dan Adran 40 Deddf Addysg 2005, mae hefyd yn ofynnol i'r awdurdod lleol baratoi datganiad ysgrifenedig o unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd yng ngoleuni adroddiad arolygu'r ysgol sy'n nodi bod angen mesurau arbennig ar ysgol neu fod angen ei gwella'n sylweddol. Dylai'r datganiad ysgrifenedig hefyd amlinellu'r cyfnod y bwriedir gweithredu ynddo. Rhaid llunio'r datganiad ysgrifenedig o gefnogaeth ymhen 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad y cafodd yr awdurdod lleol gopi o Gynllun Gweithredu'r ysgol neu ymhen 12 diwrnod gwaith o'r dyddiad y mae'n ofynnol i'r awdurdod priodol fod wedi dosbarthu Cynllun Gweithredu'r ysgol. Nid yw'r cyfnodau y cyfeirir atynt mewn perthynas â chwblhau datganiadau ysgrifenedig yn cynnwys dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Gwener y Groglith, Diwrnod Nadolig ac unrhyw wyliau banc eraill ond nid ydynt yn eithrio unrhyw wyliau ysgol eraill.

Os nad yw'r awdurdod lleol yn bwriadu gweithredu, rhaid iddo lunio datganiad ysgrifenedig o hyd, yn amlinellu ei resymau.

Mae arfer orau yn nodi y dylai'r ysgol, yr awdurdod lleol a, lle bo'n briodol, yr esgobaeth, weithio'n agos i baratoi cynlluniau ategol. Mae'n bwysig bod datganiad ysgrifenedig yr awdurdod lleol yn cael ei deilwra'n agos yn ôl anghenion penodol pob ysgol.

Bydd Estyn yn arfarnu cynllun gweithredu'r ysgol a datganiad gweithredu'r awdurdod lleol ac yn ysgrifennu at y corff llywodraethol, yr awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru i gynghori a ystyrir bod y cynllun gweithredu a'r datganiad yn addas at eu diben i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol o fewn graddfa amser resymol. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir yn y rhan fwyaf o achosion y dylai ysgolion anelu at wneud cynnydd digonol i gael eu tynnu o'r categori mesurau arbennig o fewn dwy flynedd a chael eu tynnu o'r categori angen gwelliant sylweddol o fewn blwyddyn.

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Mererid Stone	AEM
Jassa Scott	AEM
Wendy Young	AEM